# Cofnodion wedi eu Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod :** | **Cyfarfod Bwrdd (Busnes)** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 10 Chwefror 2015 |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Ruth Hall<br>Madeleine Havard<br>Harry Legge-Bourke<br>Peter Matthews (Cadeirydd)<br>Andy Middleton<br>Nigel Reader<br>Lynda Warren<br>Paul Williams |
| **Y Tîm Gweithredol yn bresennol:** | Clive Thomas, Cyfarwyddwr Llywodraethu<br>Niall Reynolds, Cyfarwyddwr Pontio<br>Catherine Smith, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu<br>Trefor Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cenedlaethol<br>Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid<br>Ashleigh Dunn, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl<br>Graham Hillier, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r De<br>Rhian Jardine, Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy<br>Martin Britton, Prif Swyddog Gwybodaeth<br>Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Gogledd a Chanolbarth Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Kelly Goswell |

## Croeso

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**Ymddiheuriadau**

2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Hywel Davies, Ceri Davies, (Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio) gyda Rhian Jardine ac Emyr Roberts (Prif Weithredwr) yn bresennol ar eu rhan.

3. Estynnodd y Cadeirydd groeso ffurfiol i Martin Britton i Gyfarfod y Bwrdd yn dilyn ei benodiad diweddar fel Prif Swyddog Gwybodaeth ac aelod llawn o'r Tîm Gweithredol.

**Datgan diddordeb**

4. Nododd Madeleine Havard ei phenodiad i Grŵp Llywio Labordai Awyr Agored (OPAL) a Citizen Science Cymru.

**Cadarnhau Cofnodion**

5. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod Bwrdd ar 4 Rhagfyr yn gofnod cywir o'r cyfarfod ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd

**Materion yn codi**

6. Nodwyd bod y Strategaeth Hamdden a Mynediad Awyr Agored wedi'i diwygio yn sgil proses graffu'r Bwrdd a'i hailenwi'n Gynllun Galluogi.

7. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd fersiwn derfynol y Cynllun Galluogi Hamdden a Mynediad Awyr Agored yn cael ei gyhoeddi ar wefan CNC.

8. Trafododd y Bwrdd a oedd y ffigurau newydd ar blannu, ailblannu a chwympo coed yng Nghymru yn gwbl gydberthnasol. Cytunwyd y byddai gwybodaeth lawnach yn cael ei darparu i'r Bwrdd.

***Cam gweithredu: Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cenedlaethol i gyflwyno nodyn briffio i'r Bwrdd ar ffigurau newydd ar blannu, ailblannu a chwympo coed ar gyfer coedwigaeth Cymru.***

***Cam gweithredu: Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu i sicrhau bod Cynllun Galluogi Hamdden a Mynediad Awyr Agored ar y wefan.***

**Adolygu'r Log Gweithredu**

9. Adolygwyd y log Gweithredu a chafwyd yr adborth canlynol:

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cam gweithredu 1 - *Cyflwyno polisi i ARAC yng nghyfarfod mis Rhagfyr er mwyn ei ystyried. Ysgrifenyddiaeth i nodi'r rhagolwg ar gyfer ARAC.* Cyflawnwyd.

Cam gweithredu 2 - *Ysgrifenyddiaeth i nodi'r rhagolwg, cyflwyniad yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Bwrdd - Symud y sefydliad o bontio i drawsnewid.* Cyflawnwyd.

Cam gweithredu 3 – *CNC i ddarparu nodyn briffio i'r Grŵp ar y Panel Cynghori ar Goetiroedd.* Cariwyd drosodd.

Cam gweithredu 4 – *Rhannu rhestr o geisiadau llwyddiannus/aflwyddiannus ymhlith aelodau'r Bwrdd* Cyflawnwyd. Noder – yn y dyfodol, cyflwyno rhestr i Aelodau'r Bwrdd cyn gynted ag y bo modd er mwyn helpu'r Aelodau i gyfathrebu.

Cam gweithredu 5 – *Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio i ddosbarthu rhestr o'r rhywogaethau anfrodorol ymledol sy'n peri'r risg mwyaf, i aelodau'r Bwrdd.* Cyflawnwyd. Nodwyd - eitem i'w roi ar agenda'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig.

Cam gweithredu 6 – *Ysgrifenyddiaeth i gynnwys Adroddiad Blynyddol Gwarchodfa Dyfrdwy ar Ragolwg y Bwrdd.* Cyflawnwyd.

Cam gweithredu 7 – *Ysgrifenyddiaeth i nodi iechyd a diogelwch ar Ragolwg y Bwrdd.* Cyflawnwyd.

Cam gweithredu 8 – *Ysgrifenyddiaeth i rannu'r cyflwyniad i Aelodau'r Bwrdd*. Cyflawnwyd.

Cam gweithredu 9 – *Ysgrifenyddiaeth i rannu cofnodion y Fforwm Rheoli Tir.* Cyflawnwyd.

Cam gweithredu 10 – *Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau'r trefniadau ac argaeledd ar gyfer ymweliadau â safle.* Cyflawnwyd.

## Diweddariad Cyllid - 2014/15 NRW B B 4.15

10. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid bapur i'r Bwrdd gan esbonio ein bod, ddechrau'r flwyddyn, wedi cynllunio ar gyfer cyllideb o £191.4 miliwn heb arian dros ben na diffyg mewn cyllid. Dri-chwarter ffordd drwy'r flwyddyn, disgwylir i'n hincwm fod yn £203.3m am y flwyddyn gyfa, yn bennaf oherwydd £5m o incwm ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mentrau Buddsoddi i Arbed a threialon Rheoli Adnoddau Naturiol yn ogystal ag incwm masnachol ychwanegol. Mae ein galwadau gwariant blynyddol wedi cynyddu i £202.7m yn bennaf er mwyn cyflawni'r gwaith hwn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ond mae wedi gostwng i £202.2m diolch i ymdrechion ar y cyd

ar gostau mewnol. Dyma brawf o'n dyhead i gyflwyno canlyniadau gwell gyda'r adnoddau sydd ar gael.

11. Nododd y Bwrdd y papur a chroesawyd yr esboniad cryno. Hefyd, nodwyd yr adborth canlynol:

- Croesawyd y drefn o gyflwyno gwybodaeth yn yr atodiad, yn seiliedig ar y system gyllid integredig newydd
- Canmolwyd gwaith y tîm cyllid a'r tîm arwain ehangach ar gyflwyno rheolaeth ariannol gadarn law yn llaw â gweithredu'r system gyllid integredig newydd
- Cafwyd sicrwydd, erbyn y bydd y tranche swyddogaethol nesaf, gan gynnwys y gyflogres, yn mynd yn 'fyw' ym mis Mawrth, bod digon o brofion wedi'u cyflawni i sicrhau bod y broses hollbwysig hon yn cael ei chyflwyno'n gywir,

12. Cymeradwyodd y Bwrdd y papur.

**Dangosfwrdd Corfforaethol 2014/15 – 2il Adolygiad Perfformiad (NRW B B 5.15)**

13. Croeswyd John Hogg i'r cyfarfod gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu. Rhoddodd gyflwyniad i'r Bwrdd ar yr Adroddiad Perfformiad gan gynnwys adolygiad o berfformiad rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd yn erbyn Dangosfwrdd Corfforaethol 2014/15.

14. Darparodd pob Cyfarwyddwr Gweithredol y wybodaeth ddiweddaraf am y Bwrdd y maent yn ei gadeirio ar ran y Tîm Gweithredol, gan egluro unrhyw ddangosyddion oren/coch yn fanylach.

15. Nododd y Bwrdd y papur a'r cyflwyniad gan ddarparu'r adborth canlynol:

- Byddai darparu manylion am gerrig milltir y targed Bioamrywiaeth o gymorth i egluro'r cynnydd ymhellach
- Mae natur y gwaith dan yr adran Forol yn creu problemau a bydd angen ei ddiwygio fel rhan o waith parhaus gyda Llywodraeth Cymru.
- Codwyd cwestiwn ynghylch trosglwyddo data gyda Llywodraeth Cymru, o safbwynt data rhaglenni amaethyddol/Cyswllt Ffermio, a gofynnwyd am eglurder a oedd wedi'i nodi fel dangosydd gwyrdd yn seiliedig ar dderbyn data neu gwblhau'r dasg.

***Cam gweithredu: John Hogg i ateb yr ymholiad ar ddata.***

- Cytunwyd bod targedau'r dyfodol ar gyfer cyflwyno Rheolaeth Adnoddau Naturiol yn bwysig
- Gofynnwyd am sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd targed o 99% ar gyfer rheoli rhybuddion llifogydd ac asedau risg uchel. Mae adolygiad o gategoreiddio

asedau ar waith ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau bod asedau risg uchel yn cael y flaenoriaeth, a bydd y targed hwn yn cael ei fireinio o'r herwydd

- Croesawodd y Bwrdd y camau gweithredu cadarnhaol a'r perfformiad gwell o safbwynt ymatebion cynllunio, gan dderbyn na fyddwn yn cyflawni'r targed hwn ar gyfer y flwyddyn lawn oherwydd effaith gronnol perfformiad salach yn ystod hanner cynta'r flwyddyn.
- Codwyd mater incwm o drwyddedau pysgota, a bydd y grŵp Mentrau yn trafod hyn yn y dyfodol.
- Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu y wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiadau Gofal Cwsmeriaid yn ei rôl fel Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb ar gyfer y rhaglen Pontio, a'r gwasanaethau cwsmeriaid sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd. Bydd Paul Williams, fel Hyrwyddwr y Bwrdd yn gweithio mewn modd anweithredol o fewn y rhaglen hon er mwyn rhoi cyngor a darparu sicrwydd i'r Bwrdd.
- Cafodd mesurau i adrodd ar ein perfformiad ar ofal cwsmeriaid, yn seiliedig ar ein hadborth gan gwsmeriaid, ei nodi fel gofyniad penodol ar gyfer Dangosfwrdd 2015/16.
- Nodwyd y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru hysbysu gwaredu eiddo ar y wefan yn y dyfodol.
- Byddai'r adroddiad perfformiad ar ffurf 'llyfryn' yn ddefnyddiol iawn.

16. Dywedodd y Cadeirydd fod llawer o'r pwyntiau a godwyd yn berthnasol i'r eitem nesaf ar yr agenda, o ran datblygu Dangosfwrdd sy'n seiliedig ar Gynllun Busnes 2015/16 a chytunodd y Bwrdd y dylai'r tîm ac Is-grŵp y Bwrdd ystyried y rhain.

***Cam gweithredu: John Hogg i gynnwys unrhyw sylwadau perthnasol wrth ddatblygu Dangosfwrdd Corfforaethol 2015/16***

17. Cafodd y papur ei gymeradwyo gan y Bwrdd a chytunodd yr aelodau fod fformat yr adroddiad wedi'u helpu i graffu ar berfformiad y sefydliad.

## Cynllun Busnes a Chyllideb 2015/16 (NRW B B 6.15)

18. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu'r papur i'r Bwrdd a diolchodd i Grŵp y Bwrdd (Nigel Reader, Madeilene Havard a Ruth Hall) am gynghori'r tîm ar fersiwn drafft o'r Cynllun Busnes cyn y cyfarfod.

19. Roedd y Bwrdd yn fodlon gyda'r cyfraniadau i ddatblygu'r Cynllun dros y 4 mis nesaf. Cytunwyd y dylid anfon unrhyw bwyntiau o fanylion at y Cyfarwyddwr Llywodraethu cyn pen 10 diwrnod gwaith.

***Cam gweithredu: Adborth i'w anfon at y Cyfarwyddwr Llywodraethu.***

20. Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Busnes a Chyllideb 2015/16 cyn ystyried unrhyw bwyntiau ychwanegol gan Is-grŵp y Bwrdd. Ar ôl hyn, cytunodd y Bwrdd y dylid anfon y Cynllun a'r Gyllideb at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol.

## Ardaloedd Draenio Mewnol – Ardollau ac Ardrethi 2015/16 (NRW B B 7.15)

21. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid bapur i'r Bwrdd yn manylu ar y Praeseptau, Ardrethi Draenio ac Ardollau Arbennig arfaethedig ar gyfer 2014/15.

22. Nodwyd bod Pwyllgor Rheoli Risg Llifogydd wedi adolygu'r cynigion yn flaenorol ac wedi cytuno arnynt.

23. Cymeradwyodd y Bwrdd holl gynigion y papur.

## Strategaeth Addysg a Sgiliau (NRW B B 8.15)

24. Croesawodd y Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy Gill Bilsborough i gyfarfod y Bwrdd, a gyflwynodd y Cynllun Galluogi Addysg a Sgiliau wedyn.

25. Cymeradwywyd y papur gan y Bwrdd, a darparwyd yr adborth canlynol:

- Canmolwyd a chefnogwyd fformat clir a dull arloesol y rhan hon o'r gwasanaeth. Croesawyd y pwyslais ar gynnwys addysg rheoli adnoddau naturiol yn arbennig, ond teimlwyd y byddai'r Cynllun yn elwa ar restr o dermau a diffiniadau penodol.
- Awgrymwyd y dylid gwirio'r aliniad llawn â'r Adroddiad gan yr Athro Donaldson i'w gyhoeddi ddiwedd Chwefror 2015.
- Trafodwyd y cysylltiad rhwng addysg a thlodi, gan gynnwys ardaloedd difreintiedig.
- Er mwyn cyflawni, a sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n esiampl da, nodwyd bod angen i'r staff gael yr addysg a'r sgiliau priodol.
- Canmolwyd y cynllun gan Gyfarwyddwr Gweithrediadau'r Gogledd, fel cadeirydd Bwrdd thema'r 'Da i Bobl', a oedd yn edrych ymlaen at ei weld ar waith.

26. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Galluogi Addysg a Sgiliau, y Cynllun Gweithredu cysylltiedig a'r Cynllun Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau.

## Rhaglen Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (NRW B B 9.15)

27. Croesawodd Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy Hazel Drewett i'r cyfarfod a gyflwynodd y papur i'r Bwrdd.

28. Nododd y Bwrdd y papur a darparwyd yr adborth canlynol:

- Trafodwyd y defnydd o'r un galluogrwydd i gyfrannu at gynlluniau/caniatadau Glastir a gwneud gwaith paratoadol ar gyfer hysbysiad SoDdGA. Cydnabuwyd manteision gwaith Glastir, a rhoddwyd sicrwydd bod unrhyw effaith bosibl ar y rhaglen SoDdGA yn cael ei reoli'n llawn ar sail risg. Cafodd y dull pragmataidd hwn, gyda rhaglenni blaenoriaeth yn cael eu defnyddio i reoli'r llwyth gwaith eu croesawu.
- Nodwyd hefyd y gall dulliau rheoli SoDdGA cyffredinol elwa'n uniongyrchol ar raglen Glastir.
- Bydd y Rhaglen Flynyddol o Hysbysiadau SoDdGA yn cael ei thrafod fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesa'r Ardaloedd Gwarchodedig.

29. Nododd y Bwrdd y papur, a'r camau sy'n cael eu cymryd i reoli adnoddau'n effeithiol.

**Rhaglenni lliniaru amgen ar gyfer afonydd yng Nghymru wedi'u stocio ag eogiaid yn flaenorol ( NRW B B 10.15)**

30. Cyflwynodd Hazel Drewett y papur i'r Bwrdd.

31. Nododd y Bwrdd y papur gan roi'r adborth canlynol.

- Roedd y Bwrdd yn cytuno gyda'r syniad o sefydlu grwpiau dalgylch ar gyfer pob un o'r saith afon dan sylw, a gofynnwyd am gynlluniau gweithredu maes o law. Awgrymwyd y dylai'r pwyslais estyn y tu hwnt i'r saith dalgylch, os oedd tystiolaeth o fanteision posibl i ategu hynny
- Gofynnwyd am ddiweddariad ar statws gwarchodaeth cyfredol rhywogaethau pysgod mudol, gan gynnwys lefelau stocio.

***Cam gweithredu: Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio i ddosbarthu'r cynlluniau gweithredu, a diweddariad ar statws cadwraeth pysgod mudol, i'r Bwrdd er gwybodaeth.***

- Cafodd pwysigrwydd sefydliadau gwyddonol eraill, a Llywodraethau y tu allan i awdurdodaeth Cymru, a phwysigrwydd ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid i sicrhau cynnydd, eu nodi unwaith eto gan y Bwrdd.

32. Nododd y Bwrdd y papur.

**Diweddariad gan y Cadeirydd (llafar)**

33. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd a fynychwyd a chyflwynodd adroddiad am weithgareddau dan bedair colofn Rheoli Adnoddau

Naturiol:

**Amgylchedd**
Ymweliad â safle dreialu CNC
Gweithio â British Water ar faterion 'Sewage Safe '

**Economi**
Swyddogaeth y CBI
Cyflwyniad i gynhadledd CFfI
Ymweliad â safle Bryn Composting

**Cymuned**
Cyfarfod â Sefydliad y Merched

**Gwybodaeth**
Darlith ym Mhrifysgol Anglia Ruskin
Cyfarfod â CIWEM
Adolygiad JNCC

**Diweddariad gan y Prif Weithredwr (llafar)**

**Diweddariad ar Iechyd, Lles a Diogelwch (Papur)**

34. Yn absenoldeb y Prif Weithredwr, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl bapur ar iechyd, lles a diogelwch.

35. Awgrymwyd y byddai diweddariad iechyd, lles a diogelwch yn fwy priodol yn gynt ar agenda'r Bwrdd .

***Cam gweithredu: Y Cyfarwyddwr Llywodraethu i ystyried hyn ymhellach***

**Diweddariad ar Bontio**

36. Darparodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu ddiweddariad i'r Bwrdd ar achlysur lansio Map Ffordd Cyfoeth Naturiol Cymru gan gynnwys sesiynau ymgysylltu â staff. Mae cardiau Z personol, sy'n cynnwys y map ffordd a gwerthoedd ac ymddygiad CNC, wedi'u darparu i bob aelod o'r staff.

37. Bydd cyflwyniad manylach yn cael ei wneud ar 12 Mawrth 2015 yn ystod Sesiwn Datblygu'r Bwrdd.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Arian partneriaeth**

38. Darparodd y Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy ddiweddariad cryno i'r Bwrdd ar arian partneriaeth.

- Dosbarthwyd llythyrau cynnig.
- Mae'r dolenni cyswllt arweiniol wedi cysylltu â'r holl ymgeiswyr
- Mae cyfarfod o'r is-grŵp wedi'i drefnu ar gyfer 6 Mawrth 2015
- Roedd y broses gyfathrebu'n gadarnhaol iawn ar y cyfan, gyda mân broblemau ynghylch cywirdeb gwybodaeth 'ail law' a pha mor gyflym yw'r broses o rannu gwybodaeth.

**Adroddiadau gan Bwyllgorau**

**Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol**

39. Cafodd cofnodion diwetha'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol eu derbyn yn ffurfiol gan y Bwrdd.

40. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 20 Mawrth 2015.

**Pwyllgor ARAC**

41. Cafodd cofnodion cyfarfod diwetha'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd (ARAC) eu derbyn yn ffurfiol gan y Bwrdd.

42. Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mawrth sy'n cynnwys eitem ar yr agenda ar 'ddiogelwch TGCh', a gyflwynir gan y Prif Swyddog Gwybodaeth.

43. Cadarnhaodd Cadeirydd ARAC fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dechrau'r archwiliad interim o gyfrifol CNC.

**Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd Cymru (FMRW)**

44. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 16 Ionawr gan gynnwys sesiwn gyda'r Is-grŵp Cyllid.

45. Cafodd y canlynol eu trafod a'u cymeradwyo gan yr Is-grŵp Cyllid:

- Amrywiannau Rhaglen Gyfalaf CNC
- Y Rhagolwg
- Praeseptau, Ardrethi Draenio ac Ardollau Arbennig arfaethedig ar gyfer 2015/16

46. Roedd cyfarfod FMRW yn cynnwys diweddariadau a thrafodaethau ar:

- Adolygiad o'r Pwyllgor FMRW
- FRM – cyfeiriadau'r dyfodol a llywodraethu yng Nghymru
- Rol risg llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn y system gynllunio
- Cyfarfodydd yr Is-grŵp Cyllid a'r Bwlch Cyllido.

47. Mae adolygiad CNC o effeithiolrwydd FMRW bellach wedi'i gwblhau, a'r argymhellion wedi'u cyflwyno i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cenedlaethol fel y Cyfarwyddwr Gweithredol atebol.

48. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad ehangach o lywodraethu FRM yng Nghymru. Bydd adolygiad CNC o FRMW yn cael ei ddarparu i gydweithwyr Llywodraeth Cymru sy'n arwain yr adolygiad hwn.

49. Atgoffwyd y Bwrdd bod Llywodraeth Cymru wedi'u derbyn y Cynllun Cyflawni ar Lifogydd Arfordirol ym mis Rhagfyr 2014, a bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael £150K yn ychwanegol i gydlynu'r broses o gyflawni'r cynllun hwn. Diolchwyd i Adrian Philpott a Louise Pennington am eu gwaith ar yr adroddiad a'r cynllun hwn.

50. Nodwyd hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £150k o gyllid arloesol newydd i awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael â materion rheoli risg llifogydd arfordirol. Bydd yr arian yn para am dair blynedd o 2018/19 ymlaen, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn gefn i awdurdodau lleol perthnasol.

## Pwyllgor Safleoedd Gwarchodedig

51. Cynhaliwyd dau gyfarfod ar 17 Tachwedd 2014 a 2 Rhagfyr 2014 a chafodd cofnodion eu cynnwys gyda phapurau'r Bwrdd er gwybodaeth.

## Diweddariadau gan Grwpiau'r Bwrdd (ysgrifenedig)

52. Nododd y Bwrdd y papurau a gyflwynwyd gan Grwpiau'r Bwrdd.

## Rhagolwg

53. Cytunodd y Bwrdd y byddai Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ar 12 Mawrth 2015 yn cynnal trafodaeth bellach ar Reoli Adnoddau Naturiol gyda diweddariad strategol ar y Map Ffordd a'r rhaglen Bontio.

## Unrhyw fater arall

54. Ni nodwyd unrhyw fater arall.